# LLYTHYR

ODDIWRTH

# CAPT. D. JONES AT WM. PHILLIPS,

YN CYNNWYS

## NEWYDDION O SEION.

*Dinas Manti, Mawrth,* 1851.

Fy Anwyl Frawd Phillips,—Gyda phleser y cyfrinachaf â chwi trwy lythyr, yn absennoldeb pob cyfrwng arall; er nad yw *llythyr*, ond cyfrwng gwael i drosglwyddo fy meddyliau aml o barthed i, a'm teimladau hiraethlon tuag atoch chwi, tuag at fy anwyl frodyr yn yr offeiriadaeth, ynghyd a'r holl Saint anwyl yna. Credwch fi nad ydych byth un diwrnod o'm meddwl, ac y mae dymuniadau goreuaf fy nghalon yn cael eu hoffrymu oddiar yr allor deuluaidd i fyny yn feunyddiol ar eich rhan, at yr Hwn a ddichon eich cadw chwi yn ddiogel, a'ch casglu yn nghyd i'w waredfan; lle y cewch glywed sŵn hyfryd ganiadau Seion fuddygoliaethus, yn lle cael awfrdanu eich clustiau gan ochain a gruddfanau trancedig cyfeillion, perthynasau, ac anwyliaid; lle y cwrddwch â brawd a ffrynd â gŵen siriol ar eu gruddiau, yn *index* o galon lawen a didwyll, yn lle fel y mae yna, yn cael eich poeni gan olwg eichlyd, a rhincian dannedd arnoch ar hyd yr heolydd, gan y rhai ag y dymunech eu lleasoli; megys y cefais innau tra yna. Mae awydd, lond fy mryd, er pob peth a fu, am weled lluoedd Cymru yn mwynhau y ddysgeidiaeth, y llonyddwch, a'r heddwch sydd yma; a'r waredigaeth rhag afiechyd, plaäu, a'r gormes ag sydd, yn ol pob hanesion a phrophwydoliaethau, yn parhau i ysgubo trigolion truenus y byd yna i fyd yr ysbrydoedd, parod neu beidio, ac yn sathru y gweddill dan eu garnau haiarnaidd i'r llwch heb obaith am ymwared. Buan y delo y dydd y cewch oll weled eich hunain, ac y caffwyf finnau y pleser o'ch cwmni, yn nyffrynoedd y mynyddoedd heddychol ac iachus hyn, ac yn mwynhau eich gwala o dir ffrwythlon i'w lafurio, heb dalu rhent na nemawr o dreth i neb am dano, a

digon o gyflog i'ch boddlonrwydd am bob celfyddydiaeth; ie, pan y cewch chwi, megys ag y ca pawb ereill yma, gyflawn fwynhad o'r holl elfenau, eiddo a chynnysgaeth ein Tad i'w blant. A chawch hefyd berffaith gyfraith rhyddid i'ch amddiffyn yn eich holl iawnderau, ac i'ch hannog i wneyd pob daioni, ac hefyd i'ch cospi am y trosedd lleiaf a wnewch yn wybodus. Ein swyddwyr eglwysig a gwladwriaethol ydynt yma o honom ein hunain, o'r diwedd, megys ag y prophwydodd Esaiah, y byddai ar y Saint yn y *dyddiau diweddaf*. Daeth y newydd yma yn ddiweddar fod yr Unol Daleithiau wedi caniatâu i ni yma fod yn Diriogaeth, a dewis ein parchus Lywydd B. Young yn Llywydd; a chaniatasant anrhegion *haelionus* i'r Diriogaeth Newydd, ac ystyried pwy ydynt. Mae ein cyffiniau yn cyrhaedd i'r deau hyd ledred 37 gradd gogleddol. Da y dywedodd ein Brenin, "Byddwch gall fel y sarff, a diniwed fel y colomenod," a da fyddai i'w ddeiliaid oll gofio hyny yn barhaus.

Mae sefyllfa y Saint yma yn dra llwyddiannus, yn ysbrydol a thymmorol. Cynnyrcha y dyffrynoedd hyn wenith, haidd, ceirch, cloron, a phob amrywiaeth o gnydiau a llysiau ag a dyfant yn Mhrydain; eithr yn llawer mwy toreithiog, a llai o drafael, ond, yn unig y dwfrhau, yr hyn sydd yn orchwyl manwl a dyfal, o herwydd nad oes yma ddigonedd o wlawogydd yn yr hâf heb hyny. Y modd ag y dwfrheir yr ŷd yw drwy agoryd cwysau â'r aradr, wedi hau, ychydig droedfeddi oddi wrth eu gilydd, mewn modd ag y rheda y dwfr yn araf ar hyd-ddynt; yr hwn a geir o'r afonydd cyfagos drwy ffosydd a dorwyd i'r perwyl. Ac y mae y tiroedd hyn o'r fath natur fel ag y treiddia dwfr drwy'r oll o'r cwysau hyn mewn ychydig oriau; ac yna troir y dwfr ymaith efallai am wythnos, mwy neu lai. Fel hyn cynnyrchir yn gyffredin 40 bwshel yr erw o wenith, nid anfynych ychwaneg; a gwn am rai a gawsant y swm anhygoel o dros 200 bwshel ar ol heuad un bwshel, peth anghyffredin oedd hyn er ei fod yn wir am yr uchod. Gwenith California a heuir yma fwyaf, yr hwn a gynnyrcha amryw wellt ar bob hedyn, weithiau ugeiniau, canys rhifais hwy fy hunan; a'r tywysenau yn fforchi i amryw, o gryn faintioli, o herwydd yr hyn gelwir un math y "saith penog." Pris y gwenith yn awr yw 2 ddolar 50 cents i 3 dolar y bwshel; bu ei bris er's tro yn ol yn uwch o lawer; ac yn yr hâf diweddaf, i'r ymfudwyr, bu cyn ucheled â 25 cents y pwys am flawd, ceirch a haidd ychydig yn

rhatach; cloron tua dolar y bwshel, ymenyn 50 cents, caws yr un bris neu lai. Cyflogau crefftwyr ydynt o 2 ddolar i 4 dolar, gweithwyr o 1 i 2 dolar y dydd. Wrth y mis, o 12 i 20 dolar y mis am y flwyddyn; ac yr wyf fi yn awr yn talu i un o'r bechgyn Cymreig o gyflog, 200 dolar y flwyddyn, a'i fwyd a'i olch, ac i un crwt arall tu 15 oed, 100 dolar. Hefyd i forwyn, 1 dolar a 50 cent yr wythnos, a dolar i'r llall, sef Cymry; y gyflog gyffredin i forwynion yw dolar yr wythnos, ac yr oedd galwad mawr am ferched Cymru, hyd onid aethant yn rhy drachwantus am gyflog. Yr wyf yn ysgrifenu fel hyn am y Dyffrynoedd hyn yn gyffredinol, ac nid am ryw fan yn neillduol, rhag i chwi fy nghamddeall.

Yn y gymmanfa ddiweddaf, dymunodd y Llywydd Young arnaf fi wrth fy enw ar gyhoedd i ymfudo i'r fan hon, sef San Pete, ac felly y daethum yn yr Hydref. Mae hwn yn ddyffryn gwych a manteisiol i gyfanneddu ynddo, er nad yw cymmaint â Dyffryn y Llyn Halen Fawr; etto, yn fwy manteisiol mewn rhai ystyriaethau, megys, y mae yma fwy o helaethrwydd o dir, hawddach ei lafurio a'i ddwfrhau, mewn cyfartalwch i'r trigolion, nag y sydd yn awr yno; o herwydd fe synech fel y mae yno wedi ei sefydlu eisoes! Hawddach o lawer cael coed, caead, tanwydd, &c., yma. Yn hanes fy nhaith i'r deau y llynedd, cewch hanes sefydliad y lle hwn; ac y mae wedi cynnyddu eisoes hyd nes y mae yma rai cannoedd o dai cysurus, a theuluoedd mwyaf cariadus, bucheddol a heddychol ar a welais erioed. Dim gair croes, dim rhegu, dim gormes nac anghyfiawnder ni welais er pan wyf yma. Mae genym dy addoliad helaeth a chysurus, yr hwn a orlenwir bob Sul o bobl siriol a dedwydd, cedwir ysgol ynddo bob dydd, ac mae yn rhy fach, fel ag y gorfu i ni adeiladu ysgoldy arall yn ddiweddar. Cedwir ynddynt ryw gyrddau bob nos trwy yr wythnos. Adeiladwyd yma hefyd er pan ag y tiriais i yma, felin falu ŷd, melin lifo coed, *laths*, a *shingles*. Mae yma siop, yn yr hon y gellir cael y nwyddau cyffredin a fynoch braidd, ac nid yw y prisiau mor wahanol i'r Taleithiau ag a feddyliech, oddieithr ambell beth. Llafurir yn un cauad, amryw filoedd o erwau o dir, ac y mae yn bleserus gweled mor unol a brawdol y cyd-weithia pawb er lles yr oll yn mhob peth, ac mewn gwirionedd y gellir dweyd am y bobl hyn, mai, "pa beth bynag yr ymaflo eu dwylaw ynddo i'w wneuthur, gwnant ef (yn ewyllysgar), ac a'u holl egni." Medd-

ylid mai awydd pob un i'w adeiladu y deyrnas, ac wrth hyny yn unig yr adeilada ei hun. Y newydd nesaf a lawenycha eich calonau chwi oll, mi wn wrthyf fy hunan. Cenwch chwi wasgaredigion Seion drwy'r byd! ie, llawenhewch yn Ynysoedd Prydeinig y môr, canys yr Arglwydd Dduw, er eich mwyn chwi a fyrha ei waith mawr, ac a'i gwna yn fyr mewn cyfiawnder! Mae teml iddo Ef ar gael eu hadeiladu yn Seion, yn yr hon y caiff eich eneidiau sychedig chwithau ddrachtio o ffynnon ddihysbydd o wybodaeth am Dduw, a'r iawn drefn o'i addoli; am y nefoedd, ei chyfreithiau, ei mwyniant a'i gogoniant: a lle y cewch trwy ddarpariadau ac ordinhadau dwyfol eich addasu i gymdeithasu â'i thrigolion, a'ch dysgu hefyd yn yr *ethics* perffaith a arferir yn ei "thrigfan dragywyddol" hi. Ië, cewch yn eich amser ac yn ol eich ffyddlondeb feddu cyflawnder a nerthoedd yr offeiriadaeth, ag sydd yn llywodraethu yno, ac mhob man arall:—ac wedi cwblhau eich gwaith, a rhoddi i Dduw ac i'w weision, ddigon o brofion o'ch ffyddlondeb, ac o'ch teilyngdod, cewch fynedfa helaeth i mewn trwy y pyrth i'r Deml yn gyntaf, ac yna o borth i borth, hyd y santeiddiolaf! Gwyn fyd y dedwyddolion hyny! Onid yw y ddysgwyliaeth am y fath fwynhad,—am gael grym crefydd, am gael y ffydd hono a roddwyd unwaith i'r Saint, yn werth pob ymdrech a dyoddef? Dyma swn rhywbeth yn debyg i sylwedd crefydd, a doethineb ddwyfol; yr hyn yn unig a ddiwalla yr eneidiau awyddus ag a gawsant brofi o flaenffrwyth yr Ysbryd Glân. Wel, Saint hynaws, er eich cysur a'ch ymroad, sicrhaf fod yr amser dedwydd wrth y drws; ïe, y cyfnod ag yr hiraetha eich eneidiau am dano. Y peth ag y dysgwn chwi tra yna yn aml, a chyda melysdra nefolaidd, ei fod yn agos. O nage, fy nghyfeillion, nid twyll yw Mormoniaeth mewn dim a ddysgais i chwi, serch fod rhai yn twyllo eu hunain trwyddi. Iddynt hwy y bydd y golled annhraethadwy, ond i'r ffyddloniaid oll, dyry fwy na all tafod draethu, o fendithion, a gogoniant, a bywydau diderfyn i'w mwynhau. Beth ychwaneg a ddywedaf o'r pellder hyn? Gwyddoch eich dyledswyddau, ufyddhewch i'r offeiriadaeth sydd yn eich plith; ac os cynnaliwch hwynt trwy eich ffydd, a'ch gweddiau, a'ch ufydd-dod, hwy a'ch arweiniant oll yn ddiogel mewn pryd i fwynhad o'r oll ag a chwennycha eich calonau; ïe, ac ychwaneg nag a ddaeth i'ch calonau i ddychymmygu: eithr cofiwch, mai angenrhaid cael profiad o'ch

ffydd chwi yn mhob peth, bob amser. Dyweda Duw, "y profa efe ei bobl yn mhob peth," ac felly ni feddylia rai pethau yn unig. Dysgwyliwch hyn ynte, a gwyliwch ac ymfucheddwch yn gywir heddyw, tra y gelwir hi heddyw, ac felly, chwi a barhewch hyd y diwedd.

Yn mhellach ar y pen hwn dywedaf i'm ddeall trwy gyfrinach ddiweddar oddiwrth y Llywydd Young, eu bod yn bwriadu dechreu rhoi cynnysgaethiadau yn y Council House, yr hwn sydd yn adeilad helaeth a hardd, newydd ei gwblau, pan y dechreua sylfaeniad y Deml, i'r rhai yn gyntaf ag sydd yn myned ar genadiaethau tramor. Cyn sylfaeniad yr hon, adeiladant fur o geryg oddiamgylch y Temple Block, yr hwn a gynnwysa ddeg erw ysgwar; yr hwn fur a fydd yn bedair troedfedd o drwch, ac wyth o uchder; ar ben yr hwn y bydd mur o briddfeini yn wyth troedfedd, a chwech troedfedd o *pickets* ar ben hyny. Bydd yn y mur hwn amryw byrth, y rhai a warchaeir gan geidwaid: a'r penderfyniad diysgog yw, nad â i mewn trwy y pyrth hyn *ddim aflan* mewn un modd, na than un amgylchiad. Canys ar yr ammodau hyny yn unig, os sylwasoch, y rhoddodd yr Arglwydd addewid o'i bresennoldeb yn y temlau ereill a adeiladwyd; etto ymlusgodd rhai aflan a drwg i'r rhai hyny, o herwydd yr oedd amgylchiadau y Saint yn gyfryw nad ellid eu lluddias fel y gellir yma. Gwneir cledrffordd haiarn i gludo y ceryg o'r mynydd i'r mur. Ac nid yn unig dyna'r oll sydd yn myned yn mlaen yma, eithr mwy o lawer nag a allaf fi trwy lythyr, eu mynegi i chwi. Mewn gair, mae y byd newydd hwn eisoes yn gwisgo wynebpryd siriol henafiaeth, a'i drigolion diwyd yn llanw cymmeriad y dynionach bach a diwyd a row'd ar y lle, sef "Deseret," yr hyn o'i gyfieithu yw, Gwenyn y mel. Mae yma bedair o ddinasoedd eisoes wedi eu sefydlu, eu cyssegru, eu cyfanneddu, ac yn cael eu hadeiladu yn rhyfeddol o gyflym, sef Dinas y Llyn Halen Fawr, Dinas Ogden (40 mynyd i'r gogledd), Dinas Provo (46 mynyd i'r deau), a Dinas Manti (130½ mynyd i'r deau o'r Llyn Halen), sef y fan a elwid gynt, San Pete. Mae cerbydau wedi cael eu darparu a'u sefydlu i redeg bob wythnos oddiyma i Ogden, pa rai a ddechreuant mor gynted ag yr agora y gwanwyn. Mae pontydd wedi cael eu gwneyd dros yr afonydd, a'r ffordd yr holl bellder wedi cael ei gwneuthur. Mae amryw drefedigaethau wedi eu sefydlu yma a thraw drwy Ddyffryn Utah, ac yn nghwr gogleddol y dyffryn hwn, a melinau wedi eu gwneyd y gauaf hwn. Mewn gair, mae dyffrynoedd y mynyddoedd am gannoedd o filltiroedd eisoes yn fyw o drigolion! Syndod, yr ymgasglu sydd yma o'r byd dwyreiniol; gellid meddwl fod ei drigolion oll braidd wedi myned oddicartref, rhwng y Saint a ddont yma, a'r holl filoedd a aethant drwodd yma i wlad yr aur. Mae rhyw gyffroad digyffelyb yn bod, o leiaf! Heblaw hyn, ymfudodd cwmni, yn cynnwys llawer o deuluoedd, nis gwn yn iawn pa nifer, ond yn mhell dros gant, o tan lywyddiaeth G. A. Smith, o Ddyffryn y Llyn Halen Fawr i ddyffryn y Llyn Halen Fach, yn Ionawr diweddaf, yn

nghyda â phob darpariadau ac offerynau manteisiol er sefydlu trefedigaeth yn y dyffryn ag a nodais ar fy nhaith, yn y fan lle y gadawsom ni ein wageni, &c. Cymmerasant ymborth am flwyddyn, a had o bob math o y l, &c. Y bwriad yw codi ymborth, yn benaf er diwallu y miloedd mwynwyr haiarn, glo, &c., a fwriedir anfon yno yr haf nesaf i wneuthur haiarn, &c. Y mae y llywodraeth yma yn awr, yn gwneuthur darpariadau i ddechreu cledrffordd haiarn o Ddyffryn y Llyn Halen Fawr i Ddyffryn y Llyn Halen Fach; ac mor fuan ag y gellir bwriadir ei gyru hi drwodd i borthladd San Diego yn y Mor Tawel. Mae Amasa Lyman a Charles C. Rich (dau apostol) yn awr yn y Ddinas yn darparu cwmni lliosog, ac ar gychwyn bellach i wladychu yn Williams's Ranch, gerllaw Los Angeles, ac o fewn 40 mynyd i'r porth a enwyd. Gwlad fras, iachus, a hinsawdd dymherus, y dywedir ei fod, heb byth rew nac eira; eithr pob ffrwythau y *tropics* yn cynnyrchu yn doreithiog. .

Gwelwch oddiwrth yr holl ysgogiadau hyn, fod y brophwydoliaeth, neu y ddychymmyg a ysgrifenais atoch o'r blaen, yn cael ei phrysur gyflawni, sef mai dybenion yr oll yw agoryd y ffordd i'r Saint i ddyfod yma o'r deau, yn lle dyfod ar hyd ddyfroedd melldithiol Missouri, a'r daith hirfaith a phoenus dros y tir a'r mynyddoedd creiglyd. Credaf na fydd braidd hanner y pellder, y gost, na'r amser i ddod yma, pan y cwblheir y gledrffordd ag sydd yn cael ei phrysuro yn y blaen dros wddfdir Panama, ac yna mewn llong i San Diego, ac yna ar hyd cledrffordd i'r lle a ddewisoch.

Newyddion da yw y rhai hyn, onide, i orthrymedig blant Seion yn enwedig, pan y cofiwn eu hiraeth am ryddid a dod adref—pan nad oes ganddynt obaith, filoedd o honynt, y gallant ennill yna ddigon yn eu hoes i dalu eu cost hyd yma. Er hyny, y mae genyf newyddion gwell etto i'r ffyddlon a'r amyneddgar, yr hyn a brofa ofal mawr Duw a'i weision dros ei holl blant. Meddyliaf fod llawer, yn yr olwg ar yr addewidion blaenorol, yn canu ac yn wylo, yn llawenhau ac yn tristâu ar yn ail; canys, meddant, pa les yw y deml na'i hordinhadau i ni, tra yr y'm rhy dlawd i allu myned i'r fan lle y mae; ac y maent yn gofidio ddydd a nos o herwydd eu hanallu i gyrhaedd i Seion i fwynhau breintiau y Saint. Eithr ymgalonogwch, diodion Cymru, ni chollir chwithau o herwydd eich tlodi; ac ni fyrhaodd braich eich Duw, fel na allo gasglu y tlodion oll o gyrau y ddaear. Er y bydd melldith miloedd ar benau y rhai tlodion ag y talwyd eu cost i Seion, o herwydd eu hanonestrwydd a'u hanghymedigrwydd; etto, ni chauant i fyny ffyrdd Duw, ac ni allant rwystro ei waith ef yn mlaen. Yn lle y ffordd hono i gasglu y tlodion, y mae cymdeithas wedi cael ei sefydlu yma o dan nawdd y llywodraeth, a B. Young yn llywydd arni, trwy roddion, yr hyn sydd eisoes yn ddegau o filoedd o ddolars. Ei dyben yw casglu y tlodion yma, yn mha le y gweithiant ar y gweithfaau cyhoeddus, nes talu yn ol yr hyn a gawsent. Dirprwywyd yr Esgob Hunter ac ereill i'r Taleithiau,

a dychwelasant yn yr Hydref gyda channoedd o'r gweddillion o'r rhai tlodion oedd yn Nauvoo, &c. Mae yr holl ennill oddiwrth eu gwaith yn dychwelyd i'r Drysorfa, ac felly cynnydda o hyd, heblaw y cyfraniadau parhaus, hyd nes, gobeithiaf, y teimlir ei heffeithiau daionus hyd Frydain, a Chymru hefyd cyn hir. Wele i chwi, dlodion, brawf o'r hyn a addewais dros Dduw i chwi pan yna, sef na adawai chwi yn ol o herwydd eich tlodi. Llawenhewch, ynte, yn hyn, byddwch ffyddlon ac amyneddgar hyd onid anfoner am danoch.

Newydd arall ag sydd genyf i'w thraethu i chwi yw, ein bod ninnau yn y lle hwn wedi dechreu adeiladu teml—fod pawb yn unfryd yn y peth, ac nid oes ammheuaeth genyf fi a'r na chwblheir hon cyn diwedd yr haf nesaf. Y mae digonedd wedi ei addaw yn awr at hyny; ac wedi hyny bydd ein llawenydd yn fwy cyflawn fyth.

Newyddion ereill yw, o barthed i'r Madociaid; heblaw yr hyn a ysgrifenais yn hanes fy nhaith, clywais yn yr Hydref, yn y Ddinas, gan foneddwr ag oedd yn byw yn Mexico, ac ar ei ffordd adref o'r Taleithiau drwy yma, ei fod ef ers ychydig o flynyddau yn ol wedi cael allan ar ei daith, genedl o bobl wynion; ac efe a'u desgrifiai yn debyg iawn fel y desgrifiai Mr. Ward ac ereill hwynt, ac yn gwladychu yn yr un fan. Dyweda o barthed idd eu tai, eu bod naill ai wedi eu naddu yn y graig, neu eu hadeiladu o geryg mewn cilfach, rhwng creigiau uchel ac anmhosibl myned atynt, ond trwy un ddisgynfa gul—eu bod yn dringo ysgolion i benau eu tai o'r ochr allan, ac yn myned iddynt o'r nen i waered. Dyweda ereill beth yn wahanol am hyn. Groesawyd ef a'i gyfeillion i'w plith, drwy i tua thri chant o ferched ieuainc ddyfod wedi gwisgo yn eu pais a'u pettigown gwynion, a'u penau wedi eu haddurno â blodau, &c.; fod gan bob un gwdyn ac ychydig flawd o yd yr India ynddo, yr hwn a heuent ar hyd y llwybr o'u blaen. Dangosa y ddefod hon eu llawnder, ynghyd â'u haelioni a'u caredigrwydd. Diwallasant eu hangheurheidiau yn rhad pan aethant ymaith.

Heblaw hyna, cyhoeddodd Col. Doniphan o Missouri, ddarfod i ran o'i fyddin ef, yn rhyfel Mexico, ar ol cyhoeddi heddwch, gynnyg eu gwasanaeth i adferyd heddwch yn mhlith rhai o'r Indiaid cymmydogaethol. Collasant eu ffordd am amser, ac o'r diwedd cawsant allan bobl wynion, y rhai a'u derbyniasant yn roesawus, ac fe arafasant yno. Yn y gwanwyn hebryngasant hwy y milwyr i Santa Fe; am yr hyn garedigrwydd anfonodd y Col. gatrawd i'w hebrwng hwythau adref yn ddiogel. Cyhoeddodd efe wedi hyny eu hanes yn newyddiaduron y Taleithiau; eithr ni chefais y fraint o'u gweled. Dywedodd un wrthyf ei fod ef wedi darllen yr hanes, ynghyd â dau draethawd a gyhoeddasid gan deithwyr ereill a fuont yn eu plith, a sicrha y blaenaf, ni wn pa fodd, mai Cymraeg a siaradant yno. Cytuna yr hanesion hyn yn hynod mewn hynodion am danynt hwy.

Yn blaenach etto, deallais drwy yr Indiaid ag sydd yn ymweled

â ni yma, sef yr Utahs, fod rhai o'u blaenoriaid hwy yn arferol o fyned braidd bob haf i'r deau oddeutu taith deg diwrnod, i farsianda gyda phobl wynion, pa rai, ebe hwy, a wnant ac a wisgant ddillad cyffelyb i'r Mormoniaid; a bod eu benywod yn llawer glanach na hwynt. Eu bod yn llafurio y ddaear, ac yn aredig ag un ceffyl mawr, tew, ag aradr haiarn,—fod eu hoffer ceffylau yn fath o *web* gref o'u gwaith eu hunain. Dangosasant i mi wrthbanau gwlanen a brynasent yno, y rhai sydd o gyffelyb wneuthuriad i waead cartrefol Cymru. Gwnant rai o amryw liwiau, a rhesi duon neu leision mewn gwyn, mewn ereill. Dyweda yr Indiaid hyn eu bod hwy yn bur goelgrefyddol—eu bod yn credu mewn dewiniaid, swynwyr, &c., a bod un dyn yn marchogaeth adref o'r coed ar bren au ferth, heb ddim gweledig yn ei luago! &c. Druain o honynt os ynt yn fwy coelgrefyddol na'r Indiaid hyn. Dysgwyliaf ychwaneg o'u hanes pan y dychwela rhai o'r personau a fu yn eu plith, a chewch hanes helaethach etto. Cwynai y brawd Davis fod y darnau yn hirion y llynedd, ond ofnaf y byddwch chwi yr un feddwl ag ef yn awr, os na therfynaf bellach. Ond naill ai *feast* ai *famine* sydd rhyngom o hyd, ac ni all fod yn amgen yn awr. Eithr rhaid terfynu bellach, gan ymborthi ar yr hanesion a feddaf am danoch yn yr Udgorn, &c., hyd yr Hydref nesaf mae'n debyg, pryd y dysgwyliaf wledd, drwy gael eich hanesion am y flwyddyn drwy yr Udgorn, a llythyrau cynnwysfawr a ddysgwyliaf oddiwrth lawer o honoch.

Mae yr oll o'r teuluoedd a ddaeth yma yn fyw ac yn iach o ran dim a glywais, ac ni allant lai na gwneyd yn dda yn y wlad hon, a phawb a geisiant. Aeth amryw Gymry drwodd yma i wlad yr aur, a chyda hwynt neb o'r Cymry ond Thos. John. Difyrus iawn genyf weled, pe bai ond enwau fy hen frodyr selog a chydweithwyr, megys Thos. Pugh, Howel Williams, T. Giles, David John, Thomas Rees, John Thomas, Eli. Edwards, Robert Evans, Jos. Davies, D. Williams, Wm. Williams a'i deulu, &c., &c., eithr nid oes le i enwi yr oll na'r hanner ag sydd yn agos at fy nghalon beunydd, eithr neb yn fwy na'ch hunan, a'm hynaws frodyr John Davis a Wm. Howells; cyfieithais ei lythyr, a chyhoeddwyd ef yn y "Deseret News" ar ddymuniad y Llywydd B. Young. Bwriadaf ysgrifenu ato ef yn fuan, a gadewch iddo glywed y llythyr hwn. Gweddiwch drosto, fel y gwnaf fi beunydd. Fy serch gwresocaf at y brodyr uchod a'u teuluoedd, yn nghyd a'm holl gydnabod, a'r holl Saint anwyl yna. A'm dymuniad penaf i yw, byddwch aelog, addfwyn a duwiol, a gweddiwch yn barhaus dros eich gilydd, dros lwyddiant Seion, a thros eich annheilwng frawd yn yr Arglwydd.

DAN JONES.

---

*Cyhoeddwyd, ac ar werth gan Wm. Phillips, 14, Castle Street, Glebeland, Merthyr Tydfil.*

JOHN DAVIS, ARGRAFFYDD, MERTHYR-TYDFIL.